Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

# ECA

# Y Plenty

# Theor

APLP
PDPA
Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

# Adolygu'r Cof

Dewiswch gwestiwn i'w ateb.

Beth sy'n hanfodol er mwyn i wybodaeth symud o'r cof tymor byr i'r cof tymor hir?

Pa ffactorau sydd yn achosi ni i anghofio pethau?




Beth yw'r fframiau amser sydd ar goll ar gyfer adalw?

Ydych chi'n cofio'r geiriau o dasg y ddarlith diwethaf?

Dfyla ncod ardyr  yreggar

Dyfal donc a dyrr y garreg

Nid geiriau ond ystyron a phrofiadau sydd yn aros yn y cof. Byddant yn dod at ei gilydd wrth i ni eu cysylltu gydag ystyron a phrofiadau blaenorol.

# Beth yw dysgu?

Beth sydd angen arnoch chi ar gyfer dysgu?




**Beth yw rôl yr athro/athrawes (neu rywun arall) yn y broses o ddysgu?**






Ysgol adeileddiaeth

Ysgol ymddygiadiaeth

Ysgol ddyneiddiol

# Mae tair ysgol o ddysgu mewn seicoleg

| The Sensorimotor Stage<br><br>**Y Cam Synhwyraidd-weithredol**<br><br>**Oedran: Geni i 2 flwydd oes**<br><br>Prif Nodweddion a Newidiadau Datblygiadol: | The Preoperational Stage<br><br>**Y Cam Cynweithredol**<br><br>**Oedran: 2 i 7 oed**<br><br>Prif Nodweddion a Newidiadau Datblygiadol: | The Concrete Operational Stage<br><br>**Y Cam Gweithredol Diriaethol**<br><br>**Oedran: 7 i 11 oed**<br><br>Prif Nodweddion a Newidiadau Datblygiadol: | The Formal Operational Stage<br><br>**Y Cam Gweithredol Ffurfiol**<br><br>**Oedran: 12 ac i fyny**<br><br>Prif Nodweddion a Newidiadau Datblygiadol: |
|---|---|---|---|
| • Maent yn adnabod y byd trwy eu symudiadau a'u synhwyrau<br>• Maen nhw'n dysgu am y byd trwy weithredoedd sylfaenol fel sugno, gafael, edrych a gwrando<br>• Maent yn dysgu bod pethau'n parhau i fodoli er na ellir eu gweld (sefydlogrwydd gwrthrych)<br>• Maent yn deall eu bod yn fodau ar wahân i'r bobl a'r gwrthrychau o'u cwmpas<br>• Maent yn sylweddoli y gall eu gweithredoedd achosi i bethau ddigwydd yn y byd o'u cwmpas | • Maent yn dechrau meddwl yn symbolaidd ac yn dysgu defnyddio geiriau a lluniau i gynrychioli gwrthrychau<br>• Maent yn tueddu i fod yn egocentric ac yn ei chael hi'n anodd gweld pethau o safbwynt eraill<br>• Mae sgiliau iaith a meddwl yn gwella, maen nhw'n dal i dueddu i feddwl am bethau mewn termau pendant iawn | • Maent yn dechrau meddwl yn rhesymegol am ddigwyddiadau tiriaethol<br>• Maent yn dechrau deall y cysyniad o gadwraeth (*conservation*)<br>• Mae eu meddwl yn dod yn fwy rhesymegol a threfnus, ond yn dal i fod yn diriaethol iawn<br>• Maent yn dechrau defnyddio rhesymeg anwythol, neu resymu o wybodaeth benodol | • Maent yn dechrau meddwl yn haniaethol ac yn rhesymu am broblemau damcaniaethol<br>• Mae eu meddwl haniaethol yn dod yn fwy amlwg<br>• Maent yn dechrau meddw mwy am faterion moesol,athronyddol, moesegol,cymdeithasol a gwleidyddol<br>• Maen nhw'n meddwl am bethau sy'n gofyn am resymu damcaniaethol a haniaethol<br>• Maent yn dechrau defnyddio rhesymeg ddidynnol, neu resymu |

# Ysgol Ymddygiadaeth

## Gwobrwyo a chymhelliant



# Cyflyru clasurol



Mae Y Llun Hwn gan Awdur Anhysbys wedi'i drwyddedu dan CC BY


1890s
Ivan Pavlov
Cyflyru clasurol

https://youtu.be/BB7AIrt06ck



# Mwy o gyflyru clasurol
# Watson a Rayner (1920)




https://youtu.be/Mx0yufuN2vI

https://youtu.be/5duLMjaTL0U






**Sut gallwn ddefnyddio'r wybodaeth yma i'n helpu ni?**

**A fedrwn adeiladu hunan fri unigolyn wrth gyflyrru neu gwrthdroi ffordd o feddwl?**

Ydyn chi wedi eich cyflyru'n glasurol?

Beth ydych chi'n ei wneud pan mae'r hysbysebion yn dod ar y teledu?!



Mae Y Llun Hwn gan Awdur Anhysbys wedi'i drwyddedu dan CC BY-SA-NC




The Office- Classical Conditioning

# Y farn ymddygiadol

Y gred yw bod y dysgwr yn ymateb i wahanol  symbyliad mewn modd goddefol. Y gred nad oes gwybodaeth ganddo o gwbl (h.y. ***tabula rasa***) a drwy ymatebion cadarnhaol neu negyddol. (Watson, 2013).

Gwna ymateb cadarnhaol neu negyddol godi y tebygolrwydd gwna'r ymddygiad ddigwydd eto.

Ond mewn gwrthgyferbyniad, gwna cosb cadarnhaol neu negyddol lihau tebygolrwydd yr ymddygiad i ddigwydd eilwaith.

# Cyflyru Gweithredol




Mae Y Llun Hwn gan Awdur Anhysbys wedi'i drwyddedu dan CC BY-SA-NC

ysgogiad → ymateb → canlyniad

Roedd seicolegwyr ymddygiadol yn astudio dysgu mewn anifeiliaid.

https://youtu.be/Vk6H7Ukp6To

https://youtu.be/ymkT_C_NWXw

E.L Thorndike (1874-1949)



Skinner (born 1904)



Pam fyddai y math yma o brofion clinigol yn ein cynorthwyo fel addysgwyr? Beth ydych chi wedi arsylwi yn yr ysgol?




https://youtu.be/bDWwXdYWqGk

# Ymddygiadaeth

Mae atgyfnerthu cadarnhaol/positif ac atgyfnerthu negyddol yn gallu cynyddu'r tebygolrwydd bydd yr ymddygiad yn digwydd eto/ail adrodd.

I'r gwrthwyneb, mae cosb (cadarnhaol a negyddol) yn lleihau y tebygoliaeth bydd yr ymddygiad yn digwydd eto.

# Cyflyrru gweithredol
# Gan B.F. Skinner

| | Cosbi (lleihau ymddygiad) | Atgyfnerthu (gwella ymddygiad) |
|---|---|---|

Cadarnhaol/
positif
(ychwanegu)

Negyddol
(tynnu i
ffwrdd)

| | |
|---|---|
| Ychwanegu rhywbeth<br>er mwyn<br>lleihau ymddygiad | Ychwanegu rhywbeth<br>er mwyn<br>gwella ymddygiad |
| tynnu rhywbeth<br>er mwyn<br>lleihau ymddygiad | tynnu rhywbeth<br>er mwyn<br>gwella ymddygiad |

# Cyflyru gweithredol
# B.F. Skinner

| | Cosbi (lleihau ymddygiad) | Atgyfnerthu (gwella ymddygiad) |
|---|---|---|
| Cadarnhaol/ positif (ychwanegu) | ychwanegu rhywbeth er mwyn lleihau ymddygiad | ychwanegu rhywbeth er mwyn gwella ymddygiad |
| Negyddol (tynnu i ffwrdd) | tynnu rhywbeth er mwyn lleihau ymddygiad | tynnu rhywbeth er mwyn gwella ymddygiad |

Mae Cyflyru Gweithredol (BF Skinner) yn dysgu trwy **ganlyniadau** - mae ymddygiadau a ddilynir gan wobrau yn fwy tebygol o gael eu hailadrodd, tra bod y rhai a ddilynir gan gosb yn llai tebygol o ddigwydd eto.



Mae Y Llun Hwn gan Awdur Anhysbys wedi'i drwyddedu dan CC BY-NC-ND

| Math | Diffiniad | Enghraifft |
|---|---|---|
| **Atgyfnerthu Cadarnhaol** | Ychwanegu rhywbeth dymunol i gynyddu ymddygiad | Rhoi losin am ymddygiad da |
| **Atgyfnerthu negyddol** | Dileu rhywbeth annymunol i gynyddu ymddygiad | Diffodd larwm uchel pan fyddwch chi'n deffro |
| **Cosb gadarnhaol** | Ychwanegu rhywbeth annymunol i leihau ymddygiad | Gwaith ychwanegol am fod yn hwyr |
| **Cosb negyddol** | Tynnwch rywbeth dymunol i leihau ymddygiad | Cymryd ffôn i ffwrdd am raddau gwael |







https://youtu.be/JA96Fba-WHk

# Sut o bosib allen ni geisio cyflyru Ella?




Pa fath o gyflyru allen ni ei ddefnyddio?

Clasigol neu weithredol?

## Felly, beth petai ni'n dilyn trywydd cyflyru gweithredol AyM...




Pa ffactorau allai ddylanwadu ar pa mor gyflym mae ymateb yn cael ei ddysgu a chryfder yr ymateb?

# Felly, beth petai ni'n dilyn trywydd cyflyru gweithredol AyM…

Rhaglen Atgyfnerthu

(Pryd a pha mor aml?)




- Wedi 30 munud rhoddir adborth / gwobr. Cynnydd araf, cyson.
  **(Rhaglen ysbeidiol-newidiol)**

- Wedi arddangosiad o'r ymddygiad dymunol

- Wedi nifer o ymatebion annaroganadwy (unpredicateble)
  **(Rhaglen cymhareb – newidiol)**

**Pa ffactorau allai ddylanwadu ar pa mor gyflym mae ymateb yn cael ei ddysgu a chryfder yr ymateb?**




"Y drafferth gyda'r feddylfryd yw ei fod yn awgrymu bod dysgu'n digwydd o ganlyniad i ymatebion yn hytrach nag o ganlyniad i awydd i ddysgu.

**Mayer (2004): Learners may be behaviourally active but not 'cognitively active'.**

# Egwyddorion a strategaethau yr ysgol ymddygiadol

- Mae angen gwobr ar unigolyn er mwyn i ddysgu ddigwydd
- Rhaid sicrhau llwyddiant yn aml
- Gosod targedau cyraeddadwy
- Angen torri problemau hir yn ddarnau bychain
- Adborth tra ar dasg
- Dylid gwobrwyo/tynnu sylw at yr ymddygiad a'i ddymunir yn syth wedi iddo digwydd



# Ysgol ddyneiddiol

**Cwrdd ag anghenion emosiynol dysgwyr**

# John Holt



1964







Gall systemau ysgol ddinistrio meddyliau ac emosiynau plant ifanc.



- Cred yr ysgol ddyneiddiol o seicoleg mai'r gwerthoedd pwysicaf ar gyfer dysgu yw ffactorau emosiynol a datblygiad a thyfiant personol.
- Pwrpas ysgolion yw diwallu anghenion yr unigolyn ac nid y gwrthwyneb.

Mae Y Llun Hwn gan Awdur Anhysbys wedi'i drwyddedu dan CC BY

**Credant bod ofn methiant a gwrthod yn creu ymdeimlad o fethu cydymffurfio**
**(diffyg gwytnwch)**

Tynnu nôl, peidio cymryd risg, diffyg hunan hyder.

Gwrthryfela, ansicrwydd, ymddygiad aflonyddgar.

Naill ffordd neu’r llall, mae dysgu yn cael ei ddifrodi

# Ffactorau emosiynol a phrifiant unigolyn sydd bwysicaf!

Nod ysgolion yw sicrhau cyrraedd anghenion pob unigolyn, nid gorfodi unigolyn i ‘ffitio’ i ddefodau’r ysgol.

- Ffactorau emosiynol a phryfiant unigolyn sydd bwysicaf!
- Nod ysgolion yw sicrhau cyrraedd anghenion pob unigolyn, nid gorfodi unigolyn i ‘ffitio’ i ddefodau’r ysgol.
- Dylai dysgwyr ddewis beth, pryd a phwy gwnânt o fewn y dosbarth.
- Dilyn eu hawydd a’u diddordebau.
- Adnoddau/cyflymder/cynnwys/dulliau wedi eu teilwra at yr unigolyn.
- Cymhelliant uchel – plentyn sy’n gyfrifol am ei dysgu.
- Cefnogi gormod - gor ddibyniaeth
- Hunan asesu yw’r allwedd i ddysgu a chofio.
- Nid asesu gan athro gan y gall arwain at ymdeimlad o fethiant.
- Amser i wella.
- Y plentyn sy’n dewis pryd mae’n barod i gael ei asesu.

Dylai dysgwyr allu dilyn eu diddordebau a'u talentau eu hunain er mwyn iddynt fedru datblygu hyd eithaf eu gallu ac i'w cyfeiriad unigryw eu hunain.



# Y Prif Egwyddorion

- Dylai'r dysgwyr fod yn hunan-gyfeiriol
- Mae dewisiadau yn sicrhau cymhelliant uchel
- Nid yw'r Cwricwlwm Cenedlaethol a phresenoldeb gorfodol yn flaenoriaeth
- Mae gor-gefnogaeth gan athrawon yn annog dibyniaeth
- **Dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.**

# Y Prif Egwyddorion

- Polisi, dim bai am wneud camgymeriadau.
- Dysgwyr yn cynnig eu hunain ar gyfer asesu pan maent yn meddwl eu bod yn barod.
- Hunan-asesu yn well nag asesiad athro/athrawes – ni all dysgwyr gymryd cyfrifoldeb dros eu gwelliant eu hunain nes eu bod yn medru dysgu I feirniadu eu gwaith yn adeiladol.
- **Rhoi amser er mwyn gwella gwaith.**

- **Pa ysgol byddech chi'n mabwysiadu yn eich dosbarth?**

**Adeileddiaeth, Ymddygiadaeth neu Ddyneiddiol?**